OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2284

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001

**Gofynion pwyllgorau ac is-bwyllgorau**

**5.**—(1) Mae pob pwyllgor i awdurdod lleol a sefydlir o dan reoliad 4 a phob is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath i gael ei drin—

(a) fel pwyllgor neu is-bwyllgor i brif gyngor at ddibenion Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfle i fynd i gyfarfodydd ac i weld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol) a

(b) fel corff y mae adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1980(**1**) (dyletswydd i ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol) yn gymwys iddo.

(2) Rhaid i bwyllgor i awdurdod lleol a sefydlir o dan reoliad 4, ac eithrio pwyllgor ardal a sefydlir o dan reoliad 4(2)(c), gynnwys uchafswm o ddeg aelod neu ugain y cant o aelodau'r awdurdod, (wedi'i gyfrifo drwy dalgrynnu nifer yr aelodau i fyny i'r rhif cyfan agosaf pan nad yw nifer yr aelodau yn rhif cyfan wrth gyfrifo'r ganran) p'un bynnag yw'r mwyaf.

(3) Rhaid i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen ddyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau a sefydlir o dan reoliad 4 er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdod lleol yn cael ei adlewyrchu gan y cadeiryddiaethau hynny.

(4) Rhaid i bwyllgor cynllunio, pwyllgor trwyddedu neu bwyllgor ardal a sefydlir o dan reoliad 4 neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath sy'n gyfrifol am unrhyw un o'r swyddogaethau a restrir yn Rhan A o Atodlen 1 (swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu) gael wyth aelod o leiaf.

(5) Pan fydd awdurdod lleol yn sefydlu pwyllgorau ardal—

(a) rhaid cael o leiaf dri phwyllgor o'r fath a rhaid iddynt ymdrin â'r cyfan o ardal yr awdurdod lleol; a

(b) bydd gan bob aelod o'r awdurdod lleol hawl i fod yn aelod o un pwyllgor ardal.

(6) Caiff y Bwrdd gynnwys cadeirydd pwyllgor cynllunio'r awdurdod lleol a chadeiryddion pwyllgorau ardal os oes pwyllgorau o'r fath wedi'u sefydlu yn unol â rheoliad (4)(2).

(7) I'r graddau y gellir dirprwyo pwerau awdurdod lleol ynghylch ei swyddogaethau archwilio o dan unrhyw ddeddfiad i bwyllgor neu is-bwyllgor, caiff awdurdod lleol ddirprwyo i bwyllgor archwilio.

(8) O ran pwyllgor archwilio a sefydlir o dan 4(2)(ch):

(a) rhaid iddo beidio â chynnwys unrhyw un o aelodau'r Bwrdd; a

(b) rhaid iddo beidio â chael cadeirydd sy'n aelod o'r un grwp gwleidyddol â Chadeirydd y Bwrdd (ac eithrio lle nad oes ond un grwp gwleidyddol); ac

(c) caiff benodi un neu fwy o is-bwyllgorau; ac

(**1**) 1989 p.42. Diwygiwyd adran 18 gan adran 99(3) i (9) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

(ch) caiff drefnu i unrhyw is-bwyllgor o'r fath gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

(9) Ni chaiff is-bwyllgor i bwyllgor archwilio gyflawni unrhyw swyddogaethau heblaw'r rheiny a roddir iddo o dan baragraffau (7) ac (8).

(10) Caiff pwyllgor archwilio neu unrhyw is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod, ond ni fydd gan unrhyw bersonau o'r fath hawl i bleidleisio mewn unrhyw un o gyfarfodydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath ar unrhyw gwestiwn sy'n gofyn am benderfyniad yn y cyfarfod hwnnw ac ni fydd ganddynt hawl i fod yn gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath.